# CYFARFOD GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL CYMRU - COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 24 Mawrth 2021

**Amser:** 10:00 – 11:00 (trwy TEAMS)

**Atodiad A:** Mynychwyr

## 1. Croeso (10:00)

- Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a nododd mai dyma'r cyfle olaf i gyfarfod cyn i gyfnod cyn-etholiadol Llywodraeth Cymru ddechrau.

- Ychwanegodd fod y cyfarfod yn rhoi cyfle i drafod datblygiadau ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi rhagor o fanylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin beilot (a elwir y Gronfa Adnewyddu Cymunedol) yng Nghyllideb y DU ar 3 Mawrth, a bod datblygiadau wedi bod ar lefel Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyfarfod diweddar o'r Cabinet.

- Nododd y Cadeirydd y cofnodion drafft o'r cyfarfod ar 25 Chwefror a gofyn a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau. Ni chafwyd unrhyw sylwadau a derbyniwyd y cofnodion a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru (10:05)

- Gwahoddodd y Cadeirydd Peter Ryland (PR) a Rachel Garside-Jones (RGJ) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn seiliedig ar gyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth y DU, cyfarfod o Weithgor y Gweinidogion ar fuddsoddi rhanbarthol (9 Mawrth) a thrafodaeth gan Gabinet Llywodraeth Cymru (22 Mawrth).

- Dywedodd PR mai ychydig mwy o fanylion yn unig am y cynlluniau sydd wedi bod ar gael yn ystod cyfarfodydd diweddar â Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am y methodolegau a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu cyllid ar gyfer ardaloedd lleol, er enghraifft, gan nad yw Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili ar y rhestr flaenoriaethu ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Cymunedol, o gofio bod yr ardaloedd hyn yn gymwys i gael y lefel uchaf o gymorth o dan drefniadau ariannu'r UE. Dywedodd PR fod swyddogion wedi cael gwybod bod y blaenoriaethau wedi'u pennu gan Weinidogion y DU. Roedd ymchwilwyr Llywodraeth Cymru wrthi'n ei dadansoddi ac i helpu gyda'r dadansoddiad hwnnw, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), sy'n arwain ar y cyllid.

- Ychwanegodd PR fod MHCLG bellach yn recriwtio tîm o weision sifil yng Nghaerdydd i redeg y cynlluniau yng Nghymru.

- Dywedodd RGJ fod Gweinidogion Cymru, yng nghyfarfod y Cabinet ar 22 Mawrth, yn bragmataidd ynghylch y ffaith bod rhanddeiliaid yn manteisio i'r eithaf ar gyllid er gwaethaf ymagwedd Llywodraeth y DU a'r swm bach iawn o Gyllid Adnewyddu Cymunedol sydd ar gael eleni. Roedd Gweinidogion yn dal i fod yn gefnogol iawn i'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol i Gymru ac yn credu bod ganddo swyddogaeth y tu hwnt i'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol eleni.

- Ychwanegodd RGJ y disgwylir Fframwaith Buddsoddi tymor hwy y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin ym mis Gorffennaf a byddwn yn ceisio'r cyfle ar ôl yr etholiad i Lywodraeth newydd Cymru a rhanddeiliaid ddylanwadu ar hynny. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i godi nifer o bryderon o ganlyniad i gynlluniau Llywodraeth y DU, gan gynnwys bylchau mewn cyflawni ac ariannu strategol ar gyfer sectorau a phrosiectau strategol.

- Ychwanegodd PR fod y Gweinidogion yn ymwybodol iawn o'r bylchau ariannu sy'n dod i'r amlwg ar draws sectorau yng Nghymru, a bod rheoli'r broses bontio o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn rhywbeth i'w ystyried ar ôl yr etholiad.

- Wedi mynychu cyfarfod Gweithgor y Gweinidogion ar 9 Mawrth, dywedodd y Cadeirydd fod y Gweinidogion yn siomedig iawn yn ymagwedd Llywodraeth y DU a'r diffyg ymgysylltu, ond eu bod yn ymdrechu i fod yn bragmataidd ac yn ymarferol. Ychwanegodd fod y Gweinidogion wir yn gwerthfawrogi gwaith y Grŵp ar Fframwaith Cymru a phennu blaenoriaethau rhanbarthol, a'u bod yn awyddus i osgoi dyblygu a achosir gan ddull gweithredu Llywodraeth y DU a mynd i'r afael â'r bylchau cyllid a pholisi sy'n cael eu creu.

- Roedd sylwadau'r aelodau yn cynnwys:

    - Mae cynlluniau Llywodraeth y DU yn debygol o wneud y gwaith o adeiladu portffolios strategol yn llawer mwy anodd. Mae perygl o fynd yn ôl flynyddoedd a blynyddoedd i fuddsoddiadau graddfa fach, digyswllt sy'n groes i'r cyfeiriad strategol diweddar a'r nodau yn Fframwaith Cymru ar gyfer mwy o weithio rhanbarthol.

    - Ymholiad am berthynas cronfeydd newydd y DU â'r Bargeinion Dinesig a Thwf presennol, a diddordeb mewn gweld Llywodraeth Cymru yn cydlynu ymgysylltu rhanbarthol ar gyfleoedd buddsoddi ehangach sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith Cymru a datblygu Cydbwyllgorau Corfforaethol.

    - Rhaid canolbwyntio hefyd ar y cyfleoedd ehangach a'r cronfeydd eraill a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi a Banc Seilwaith y DU, y gallai'r Grŵp hwn ei ystyried wrth symud ymlaen.

    - Pryder ynghylch y posibilrwydd o ddyblygu drwy gronfeydd newydd y DU a gofyn i Lywodraeth Cymru asesu cyhoeddiadau Llywodraeth y DU yn barhaus a'u goblygiadau ar ddarpariaeth megis cymorth busnes.

  - Cefnogaeth i gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar gynlluniau partneriaeth ryngwladol. Mae prifysgolion Cymru eisoes yn cymryd rhan mewn mentrau trawsffiniol posibl. Hefyd, cyfleoedd ariannu i fanteisio i'r eithaf ar Horizon Europe ac UKRI.

  - Siom o fewn y trydydd sector ar gronfeydd newydd y DU Pryder am y diffyg mynediad a rôl o bosibl, gyda risg wirioneddol y bydd gwasanaethau gwerthfawr yn cael eu colli.

  - Mae ymrwymiadau Llywodraeth y DU yn gyfyngedig o ran amser ac yn is na'r hyn yr oeddem wedi'i gael o'r blaen gan yr UE gan fod cyllid wedi'i ddebydu.

  - Derbyn yr angen i fod yn bragmataidd ynghylch sicrhau'r cyllid mwyaf posibl, gan gynnwys pwysigrwydd edrych y tu hwnt i gyllid Llywodraeth Cymru yn unig, ond awydd i beidio â chefnu ar werthoedd.

- Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, gwnaed y sylwadau canlynol gan PR ac RGJ:

  - Cydnabuwyd pwysigrwydd achub y cyfle a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu i Gymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhanddeiliaid mewn unrhyw ffordd y gall. Er hynny, mae'r diffyg ymgysylltiad ystyrlon gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru gefnogi rhanddeiliaid, integreiddio yn effeithiol, chwarae rôl gydgysylltu genedlaethol effeithiol, sef yr hyn a argymhellwyd gan yr OECD hefyd, a sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu o ran buddsoddiadau. Mae materion ehangach hefyd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd buddsoddiadau. Roedd y themâu trawsbynciol (cydraddoldeb, cynaliadwyedd amgylcheddol etc) yn ganolog i raglenni ariannu'r UE, a bydd y rhain yn cael eu colli bellach trwy gynlluniau Llywodraeth y DU.

## 3. Diweddariad gan Lywodraeth Leol (10:30)

- Gwahoddodd y Cadeirydd Tim Peppin (TP) o CLlLC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltiad llywodraeth leol â Llywodraeth y DU ar gronfeydd newydd y DU.

- Esboniodd TP y byddai'r amserlenni ar gyfer Cronfa Adnewyddu Cymunedol 2021-22 yn dynn a bod angen cyflwyno ceisiadau erbyn canol dydd 18 Mehefin a Gweinidogion y DU yn cymeradwyo prosiectau sy'n seiliedig ar refeniw erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae hyn yn darparu tuag wyth mis o gyflawni cyn i brosiectau ddod i ben, a disgwylir ymarfer monitro canol cyfnod tua mis Tachwedd/Rhagfyr.

- Dywedodd TP fod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y tymor hwy yn debygol o fod yn wahanol i'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol, a theimlent y dylid ystyried

trefniadau ar ôl 2022 cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau'r llwyddiant mwyaf posibl mewn ceisiadau a chael cytundeb ar sut y gallai'r Gronfa weithio yn unol â Fframwaith Cymru.

- Ychwanegodd TP fod amserlenni'r Gronfa Lefelu yr un fath â'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol, ond gyda chyfranogiad ASau sydd â rhai cymhlethdodau mewn awdurdodau lleol sydd â nifer o etholaethau. Bydd CLlLC yn parhau i rannu gwybodaeth a chydweithio â'r Grŵp. Mae angen gwario'r holl Gyllid Lefelu, sy'n gyfalaf, erbyn 2024/25, felly os oes ceisiadau mawr, yna mae angen sefydlu'r blaenoriaethau cyn gynted â phosibl.

- Casglodd TP fod ystod eang o faterion i lywodraeth leol fynd i'r afael â hwy ar y cronfeydd newydd hyn yn y DU, sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth.

## 4. Trafodaeth agored (10:40)

- Mewn ymateb i ddiweddariad TP, pwysleisiodd un o'r aelodau fod angen inni sicrhau nad yw rôl y CBCau a'n trefniadau gweithio rhanbarthol yn cael eu tanseilio ac nad yw'r awdurdodau lleol yn gweithio'n unochrog wrth ddewis blaenoriaethau newydd. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol.

- Rhoddodd Ann Watkin (AW) yr wybodaeth ddiweddaraf am statws y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (REFs). Dywedodd AW fod angen eu gweld fel set o flaenoriaethau cyffredin a chydweithio ar lefel ranbarthol – i gydategu lefelau cenedlaethol a lleol. Ychwanegodd AW fod y pandemig wedi achosi oedi ond bod y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn gwneud cynnydd da gyda phob rhanbarth sydd ar wahanol gamau datblygu ar hyn o bryd.

- Ymatebodd RGJ i drafodaeth ar yr argymhellion yn adroddiad yr OECD yn nodi bod y cam nesaf yn golygu bod yr OECD yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid dros y 18-24 mis nesaf.

## 5. Unrhyw Fater Arall (10:50)

- Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad a'u harbenigedd, ac i'r swyddogion am ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp a'u cefnogaeth wrth ymgysylltu â'r Gweinidogion.

- Ychwanegodd y Cadeirydd mai mater i Lywodraeth newydd Cymru ar ôl etholiad mis Mai fyddai dyfodol y Grŵp, ond roedd yn gobeithio y byddai'r Gweinidogion yn gweld pwysigrwydd y Grŵp, ei arbenigedd a'i gysylltiadau o fewn economi a chymdeithas Cymru.

- Diolchodd yr Aelodau i'r Cadeirydd am ei arweinyddiaeth o'r Grŵp dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**ATODIAD A**

## RHESTR O FYNYCHWYR

**Cadeirydd**
Huw Irranca-Davies AS

**Aelodau**

| **Sefydliad** | **Enw** |
|---|---|
| | |
| CBI Cymru | Nick Speed, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus, BT |
| Prifysgolion Cymru | Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr |
| Prifysgol Caerdydd | Yr Athro Calvin Jones, Dirprwy Ddeon Gwerth Cyhoeddus a Chysylltiadau Allanol |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Melissa Dickinson |
| Colegau Cymru | Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus |
| Partneriaeth y De-ddwyrain | Kellie Beirne, Prif Weithredwr, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Partneriaeth y De-orllewin | Y Cynghorydd David Simpson, Arweinydd, Cyngor Sir Penfro |
| Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Twf a Datblygiadau Mawr, Cyngor Sir Ceredigion<br>Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd, Cyngor Powys |
| Y Trydydd Sector (Menter Gymdeithasol) | Derek Walker, Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Rhwydwaith Gwledig Cymru | Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol/Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Ceredigion |
| CLlLC | Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy |
| Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru | Paul Slevin, Llywydd |

| | |
|---|---|
| Ffederasiwn Pobl Hunangyflogedig a Busnesau Bach Cymru | Ashley Rogers, Cyfarwyddwr, Gill and Shaw |
| Grahame Guilford and Company Ltd | Grahame Guilford |
| Partneriaeth y Trydydd Sector | Matthew Brown, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, CGGC |
| Prifysgol Caerdydd | Kevin Morgan, Athro Llywodraethiant a Datblygu, yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio |
| OECD (yn arsylwi yn unig) | Maria-Varinia Michalun, Dadansoddwr Polisïau |
| Undebau Llafur | Nisreen Mansour, Swyddog Polisi, TUC Cymru |
| Partneriaeth y Gogledd | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglenni, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Alyson Thomas, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid |

**Mynychwyr o Lywodraeth Cymru**

| **Enw** | **Rôl ac adran** |
|---|---|
| Peter Ryland | Prif Weithredwr, WEFO |
| Rachel Garside-Jones | Dirprwy Gyfarwyddwr – Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Ann Watkin | Pennaeth Alinio Strategol, Gweithrediadau a Chynllunio, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol |
| Alison Sandford | Pennaeth Gweithio mewn Partneriaeth, WEFO |
| Anton Orzel | Pennaeth Polisi Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Mike Richards | Rheolwr Cyfathrebu, WEFO |
| John Hughes | Pennaeth Buddsoddi Rhanbarthol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol |
| Geraint Green | Pennaeth Rheoli Rhaglenni (ESF ac ETC), WEFO |
| Tom Brown | Uwch-reolwr Polisi, WEFO |
| Michelle Holland | Swyddog Cymorth Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Tracy Welland | Pennaeth Gweithredu Strategol, WEFO |